**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/JJ/02801/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Hydref 2023

Annwyl Huw

Ysgrifennaf atoch ynghylch y gwrthdaro sy'n gwaethygu'n ddiweddar yn y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd isod fel Tiriogaethau Meddianedig Palesteina), Israel a Libanus. Rydym yn cysylltu â Llywodraeth y DU ar hyn o bryd i benderfynu a oes unrhyw fwriad i gynnal ymarferion achub. Fodd bynnag, yn y cyfamser mae angen i ni baratoi pe bai gwladolion Prydeinig yn y tiriogaethau yr effeithir arnynt yn dewis dychwelyd i'r DU.

Yn weithredol o 27 Hydref, mae Llywodraeth y DU wedi datgymhwyso'r prawf 'preswylfa fel arfer' a ddefnyddir i atal rhywun sydd â hawl i ddod i'r DU rhag hawlio budd-daliadau yn syth ar ôl iddynt gyrraedd) yn achos pobl benodol sy'n cael eu hachub rhag y trais yn Israel, Tiriogaethau Meddianedig Palesteina neu Libanus.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgymhwyso'r prawf 'preswylfa fel arfer' ar gyfer gwladolion Prydeinig, eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (neu sy'n cael eu trin felly), ac unrhyw un a gafodd ei achub o'r gwrthdaro yn Israel, Tiriogaethau Meddianedig Palesteina neu Libanus sydd â chaniatâd mewnfudo a hawl i gyllid cyhoeddus. Bydd datgymhwyso'r prawf hwn yn galluogi'r rhai sy'n cyrraedd o'r ardaloedd yr effeithir arnynt i gael mynediad at fudd-daliadau yn syth, gan gynnwys cymorth yng nghyswllt tai a digartrefedd.

Ar hyn o bryd, nid yw Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 yn cynnwys unrhyw esemptiad rhag y prawf 'preswylfa fel arfer' i wladolion Prydeinig neu'r rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo os ydynt hefyd am gael mynediad at gyllid cyhoeddus. Mae'r newidiadau hyn a wnaed gan Lywodraeth y DU yn gofyn am ymateb brys i sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru. Rwyf felly wedi cyfarwyddo fy swyddogion i gymryd y camau sydd eu hangen fel bod newid deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cael ei adlewyrchu yng Nghymru fel mater o frys.

Mae hynny'n angenrheidiol er mwyn cysoni'r rheolau tai yng Nghymru a chyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn genedl noddfa. Fel y gwyddoch, byddai angen rhwng un a thri mis fel arfer er mwyn cwblhau'r broses hon, ond, o ystyried difrifoldeb y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, mae angen cyflymu'r broses.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 [“y Rheoliadau diwygio”] yn cael eu drafftio er mwyn sicrhau bod pobl y mae’r trais yn Israel, Tiriogaethau Meddianedig Palesteina neu Libanus wedi effeithio arnynt yn gymwys i gael gwasanaethau tai a digartrefedd yng Nghymru, ac maent yn hepgor y prawf ‘preswylfa fel arfer’. Bydd y Rheoliadau diwygio yn cael eu gosod gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl. Oherwydd natur frys y sefyllfa hon, byddwn yn ddiolchgar pe bai’r Pwyllgor yn ystyried y Rheoliadau diwygio yn gynnar ac yn darparu adroddiad brys arnynt mewn pryd ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn i ddigwydd ar 14 Tachwedd 2023.

Hoffwn ddiolch i’r Pwyllgor ymlaen llaw am ei gymorth a’i gefnogaeth mewn perthynas â’r trefniadau hyn, a fydd yn rhoi cyfle i bobl sy’n ffoi rhag y trais a’r gwrthdaro geisio cymorth yng nghyswllt tai neu ddigartrefedd yng Nghymru heb oedi diangen.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change